Cynulliad Cenedlaethol Cymru

Y Pwyllgor Busnes

Mai 2015

# Adroddiad ar yr amserlen ar gyfer ystyried Bil yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru)

1. Ar 1 Mai 2015, cafodd Bil Llywodraeth, 'Bil yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru)', ei gyflwyno yn y Cynulliad.

2. Ar 21 Ebrill 2015, cytunodd y Pwyllgor Busnes, yn unol â Rheol Sefydlog 26.9, i gyfeirio'r Bil at y Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol, er mwyn iddo ystyried yr egwyddorion cyffredinol a chyflwyno adroddiad arnynt.

3. Ar 5 Mai 2015, yn unol â Rheol Sefydlog 26.7, trefnodd y Pwyllgor Busnes amserlen i'r Pwyllgor ystyried egwyddorion cyffredinol y Bil a chytunodd y dylai'r Pwyllgor gyflwyno adroddiad i'r Cynulliad erbyn 9 Hydref 2015.

4. Cytunodd y Pwyllgor Busnes hefyd y dylid cwblhau trafodion Cyfnod 2 erbyn 10 Rhagfyr 2015, ar yr amod bod y Cynulliad yn cytuno ar egwyddorion cyffredinol y Bil.